# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 04/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Mynegai Cystadleuol y DU

**C11 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dylanwadu ar safle Cymru fel y caiff ei mesur gan Fynegai Cystadleuol y DU? OAQ(3)2818(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Er bod y mesurau a adroddwyd yn y mynegai cystadleuol yn ystyriaethau diddorol, mae dangosyddion eraill yn rhoi darlun mwy cadarnhaol o'r strategaethau arloesol yr ydym yn ymwneud â hwy er mwyn sicrhau bod ein polisïau'n creu economi gynaliadwy ar gyfer bobl a busnesau Cymru.

*Tynnwyd cwestiwn* 12, *OAQ(3)2817(FM), yn ôl*

### Rhwydwaith Trafnidiaeth

**C13 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)2830(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn sicrhau ein bod yn gallu datrys problemau trafnidiaeth mewn dull integredig a chynaliadwy ochr yn ochr â chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol gan sicrhau eu bod, ar y cyd â'i gilydd, yn gwireddu strategaeth trafnidiaeth Cymru.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)2820(FM), yn ôl*

### Tlodi Aelwydydd

**C15 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thlodi aelwydydd yng Nghymru? OAQ(3)2826(FM)

**Y Prif Weinidog**: Mae ein strategaeth cynhwysiant ariannol yn amlinellu amrywiaeth o gamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â thlodi yn y cartref yng Nghymru gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar fudd-daliadau, sicrhau bod credyd fforddiadwy ar gael trwy undebau credyd a sicrhau bod tai ar gael trwy raglenni fel y cynllun achub morgeisi a'r linell gymorth rhad ac am ddim sydd wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer ymdrin â dyledion tai.